

Adroddiad Adolygu Ymarfer Plant Cryno

CYSUR 3/2021

Dyddiad y cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd:

15 Ionawr 2024

Adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant

CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru

Adroddiad Adolygu Ymarfer Plant Cryno Parthed:
CYSUR/3/2021

Amlinelliad byr o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad

I'w gynnwys yma:

- *Cyd-destun cyfreithiol o'r canllawiau y mae'r adolygiad yn cael ei gynnal mewn perthynas â hwy*
- *Amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad*
- *Y cyfnod o amser a adolygwyd a pham*
- *Llinell amser cryno digwyddiadau arwyddocaol i'w hychwanegu fel atodiad*

Cyd-destun Cyfreithiol

Comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Plant Cryno gan CYSUR, Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru, ar argymhelliad yr Is-Grŵp Adolygu Ymarfer Plant yn unol â'r Canllawiau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant. Mae'r meini prawf ar gyfer yr adolygiad hwn wedi'u bodloni o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant [Cymru] 2014 (Deddf 2014);¹ *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant*² a gyhoeddwyd yn 2016 (diweddarwyd, 2021); Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015³.

Mae'r meini prawf ar gyfer yr adolygiad hwn yn cael eu bodloni o dan Bennod 6, Adolygiadau Ymarfer Plant Cryno:

Rhaid i Fwrdd gynnal Adolygiad Ymarfer Plant Cryno yn unrhyw un o'r achosion canlynol lle gwyddys neu lle amheuir, yn ardal y Bwrdd, bod plentyn wedi cael ei gam-drin neu ei esgeuluso a bod y plentyn:

- Wedi marw; neu
- Wedi dioddef anaf a allai beryglu ei fywyd; neu
- Wedi dioddef nam difrifol a pharhaol ar iechyd neu ei ddatblygiad; **a** bod y plentyn ddim ar y Gofrestr Amddiffyn Plant nac yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn -
 - Dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato uchod; neu
 - Y dyddiad pan fo Awdurdod Lleol neu bartner perthnasol⁴ yn canfod bod plentyn wedi dioddef nam difrifol a pharhaol ar ei iechyd a'i ddatblygiad.

Nododd yr Adolygiad Ymarfer Plant hwn wersi a fydd o fudd i ymarfer yn y dyfodol. Mae'n cynnwys ymarferwyr, rheolwyr ac uwch swyddogion yn y broses o archwilio manylion a chyd-destun gwaith asiantaethau gyda Phlentyn A a'i theulu. Bydd canlyniad yr adolygiad yn ysgogi dysgu proffesiynol a sefydliadol a hybu gwelliant mewn ymarfer rhyngasiantaethol gyda phlant a theuluoedd yn y dyfodol. Mae'n cynnwys yr amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad, amlygu ymarfer effeithiol

¹[Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#)

²[Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant \(Llywodraeth Cymru, 2016\)](#)

³[Rheoliadau Byrddau Diogelu \(Swyddogaethau a Gweithdrefnau\) \(Cymru\) 2015](#)

⁴Mae Awdurdod Lleol neu bartner perthnasol yn golygu unigolyn neu gorff y cyfeirir ato yn A.28 Deddf Plant 2004 neu gorff a grybwyllir yn a.175 Deddf Addysg 2002.

ac ystyriaethau o ran sut i wella ymarfer yn y dyfodol. (Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant (Llywodraeth Cymru, 2016⁵)).

Mae'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Adolygiad Ymarfer Plant Cryno hwn yn **Atodiad 1**.

Rhagarweiniad

Mae natur ofidus dioddefaint marwolaeth ddilynol Plentyn A y gellir fod wedi eu hosgoi yn wirionedd anochel wrth wraidd yr Adolygiad Ymarfer Plant hwn. Drwy gydol y broses adolygu, mae pawb dan sylw wedi sicrhau bod bywyd, perthnasau a natur marwolaeth Plentyn A wedi cael eu trin gyda'r urddas mwyaf. Rhaid i waddol Plentyn A fod yn fwy na'r cof am sut y bu farw. Gallwn gyflawni hynny trwy harneisio'r hyn a ddysgwn o sut y gwnaeth y plentyn dygn hwn wynebu'r byd yng nghanol anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol cymhleth. Roedd Plentyn A yn haeddu ein harchwiliad diffuant, meddylgar a beirniadol o'r ffactorau cydgysylltiedig a chymhleth hierarchaidd lluosog a gyfrannodd at ei phrofiad byw. Yn yr un modd, dylem fod yn barod i fyfyrion ar ei bywyd bywiog a'i ddathlu ac effaith gadarnhaol ei theulu a gwasanaethau cyhoeddus. Wrth wneud hynny, bydd yr adolygiad hwn yn helpu i wneud synnwyr o sut y bu farw plentyn a oedd yn cael ei garu a'i werthfawrogi gan ei theulu, a oedd â photensial amlwg, cyn amser mewn cyflwr o esgeulustod cronig.

Amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad

Ym mis Hydref 2020, rhoddodd y gwasanaeth ambiwlans wybod i'r heddlu eu bod nhw wedi mynychu cartref teuluol Plentyn A oedd yn 16 mlwydd oed, ac yn anffodus eu bod nhw wedi dod o hyd iddi farw. Roedd cyflwr ei chorff yn destun gofid ac yn arwydd o esgeulustod cronig. Roedd pryderon sylweddol hefyd am gyflwr aflan a diamwys amgylchedd byw uniongyrchol Plentyn A. Roedd ymdeimlad o sioc, trallod a dicter ynghylch yr hyn yr oedd Plentyn A wedi'i brofi, yn enwedig yn y misoedd, wythnosau, a'r dyddiau cyn ei marwolaeth. Cwblhawyd archwiliad post-mortem. Canfuwyd bod Plentyn A yn hynod o ordew ac yn ansymudol; o ganlyniad, roedd ganddi lid a haint helaeth wnaeth arwain at ei dioddefaint a'i marwolaeth yn y pen draw. Nid oedd esboniad am ddiffyg ymyrraeth rhieni i geisio cymorth meddygol i blentyn a llesteiriodd ddealltwriaeth ar unwaith.

Y cyfnod o amser a adolygwyd a pham

Fe wnaeth Panel ac Adolygydd Annibynnol yr adolygiad ymgynnull cyn atal ei weithgarwch tra'n aros am ganlyniad yr achos troseddol. Cytunodd y Panel i ymestyn y llinell amser 12 mis safonol i 24 mis rhwng 10 Hydref 2018 a 10 Hydref 2020 i gynnwys dealltwriaeth o brofiad byw Plentyn A cyn dechrau pandemig COVID-19. Mae'r cyferbyniad hwnnw'n bwysig gan fod y pandemig wedi creu pwysau digynsail ar bob gwasanaeth cyhoeddus. Tynnodd y pandemig sylw at ein hadnoddau dynol a chorfforol prin ac amharod⁶ a'i effaith ar addysg plant⁷. Ar draws y sector cyhoeddus, dangosodd awdurdodau lleol, addysg, iechyd a'r heddlu allu rhyfeddol i gronni eu hadnoddau a dod o hyd i atebion arloesol.⁸

Ar ben hynny, derbyniodd yr adolygiad wybodaeth gefndirol gyd-destunol i'w helpu i ddeall effaith digwyddiadau hanesyddol ar anghenion Plentyn A. Mae'r adolygiad wedi elwa o gyfraniadau gwerthfawr gan deulu Plentyn A. Yn ogystal, fe wnaeth gwybodaeth a sgiliau aelodau, ymarferwyr a rheolwyr gwasanaeth y Panel i archwilio profiad byw Plentyn A yn feirniadol helpu i gyd-gynhyrchu'r gwersi a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn.

Cyflwyniad i Blentyn A a'i rhieni

⁵ [Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant \(Llywodraeth Cymru, 2016\)](#)

⁶ [COVID-19: Effaith y pandemig ar ddarparu gofal iechyd \(bma.org.uk\)](#)

⁷ [Effaith COVID ar addysg: Y gwaethaf i'r rhai mwyaf bregus | Fforwm Economaidd y Byd \(weforum.org\)](#)

⁸ [COVID-19: arfer cyngor da | Cymdeithas Llywodraeth Leol](#)

Plentyn A oedd y pumed o chwech o blant a anwyd i'w rhieni yng nghefn gwlad Cymru. Ar adeg ei genedigaeth, roedd mam Plentyn A, Ms B, yn 22 mlwydd oed, roedd ei thad, Mr C, yn 27 mlwydd oed, ac roedd ganddyn nhw bump o blant dan 5 mlwydd oed. Disgrifiwyd Plentyn A fel merch hyfryd, benderfynol, hwyliog a phengaled a oedd, er gwaethaf ei hanableddau cynhenid sylweddol, eisiau cael ei thrin yn 'normal'. Roedd Plentyn A wrth ei bodd yn bod yn actif; gallai berfformio'r hyn a oedd yn ymddangos fel troeon brêc llaw yn ei chadair olwyn a rhagori mewn chwaraeon. Yn ôl pob tebyg, o ystyried y cyfleoedd a'r gefnogaeth gywir, gallai Plentyn A fod wedi bod yn Baralympydd yn y dyfodol.

Cafodd ei geni gyda spina bifida (SB), anabledd cymhleth a chydol oes. Mae'r cyflwr cynhenid hwn yn un o'r cyflyrau anablu parhaol mwyaf cymhleth, sy'n effeithio ar y rhan fwyaf o feysydd gweithrediad plentyn⁹. O ganlyniad, roedd gan Plentyn A hydroceffalws, anawsterau sylweddol ar y bledren a'r coluddyn, parlys ei choesau ac roedd yn gaeth i gadeiriau olwyn. Cafodd Plentyn A nifer o lawdriniaethau llawfeddygol drwy gydol ei hoes ac roedd angen mynediad at driniaeth a chymorth arbenigol gan arbenigwyr iechyd amrywiol yng Nghymru a Lloegr. Roedd yr arbenigwyr hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, bediatreg cymunedol, pediatreg ymgynghorol, wroleg, orthopaedeg, ffisiotherapi, therapi galwedigaethol, ymataliaeth a dieteg. Cafodd Plentyn A nifer o apwyntiadau dros ei hoes gyda'r gweithwyr iechyd proffesiynol hyn. Fodd bynnag, cydnabyddir bod llawer wedi cael eu colli hefyd.

Pan oedd eu merch yn iau, cynorthwyodd Ms B a Mr C gyda gofal cymhleth ac agos, gan gynnwys cathetreiddio. Aethant i deithiau ysgol gynradd gyda Plentyn A i oresgyn rhwystrau i'w chynhwysiant trwy gefnogi ei hanghenion gofal. Cafodd Plentyn A lawdriniaeth a oedd yn ei galluogi i hunan-gathetreiddio a hunanreoli ei rhaglen coluddyn. Er bod y tasgau dyddiol hyn yn feichus ac yn cymryd llawer o amser, fe wnaethant gynyddu ei phrofiad o hunan-effeithiolrwydd, preifatrwydd ac urddas. Wrth gynnal Plentyn A drwy lawdriniaeth wrolegol adluniol gymhleth, cefnogodd Ms B a Mr C ddymuniad eu merch i fod yn 'normal'.

Mewn byd o ablaeth¹⁰, roedd Plentyn A eisiau byw ei bywyd fel unrhyw blentyn arall a chael eraill i'w thrin fel 'normal'. Mwynhaodd Child A ddeallusrwydd da a mynychodd ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd. Yn gadarnhaol, gyda chefnogaeth gweithwyr proffesiynol a'i theulu, cafodd Plentyn A reolaeth dros ei chorff a chafodd ei hannog i fwynhau hunaniaeth gadarnhaol. Eglurodd Mr C, wrth i Blentyn A dyfu'n hŷn ac angen mwy o breifatrwydd ac ymreolaeth, ei fod wedi tynnu cymorth yn ôl yn briodol ar gyfer gofal personol ei ferch. Yn 2016, pan oedd yn 12 mlwydd oed, roedd Plentyn A wedi trosglwyddo'n llwyddiannus o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ac wedi mwynhau chwaraeon a gweithgareddau cymdeithasol eraill. Doedd dim pryderon diogelu am Blentyn A bryd hynny. Roedd hi'n datblygu ymdeimlad cryf o annibyniaeth wrth iddi fynd i mewn i lencyndod. Yn 2017, fe wnaeth y Gwasanaeth Anabledd Integredig ryddhau Plentyn A o'u gwasanaeth mewn cytundeb â'i rhieni. Ni dderbyniodd yr Awdurdod Lleol ffurflen atgyfeirio amlasiantaeth (MARF) i ofyn am asesiad gofal a chymorth nac i godi unrhyw bryderon am ei lles cyn ei marwolaeth.

Llinell amser o ddigwyddiadau

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r rhyngweithio rhwng Plentyn A a gwasanaethau cyhoeddus o fewn llinell amser dwy flynedd yr adolygiad. Bydd y wybodaeth a gyflwynir yn cael ei dadansoddi a'i thrafod yn adrannau diweddarach yr adroddiad hwn.

Yn nodedig, ar ddechrau 2019, roedd gan Blentyn A 98% o bresenoldeb ysgol ac roedd yn aelod gwerthfawr o gymuned ei hysgol. Derbyniodd gefnogaeth aml gan weithiwr Gwasanaeth Ymyrraeth Ieuencid (YIS) yn yr ysgol ar ôl profi bwlio ar blatfform cyfryngau cymdeithasol. Er bod Plentyn A yn ei chael hi'n anodd mynegi ei theimladau, cafodd y gweithiwr YIS rai mewnwelediadau a chofnododd bryderon am les emosiynol A.

⁹ Holmbeck et al. (2006) <https://doi.org/10.1097/00004703-200606000-00012>

¹⁰ Daalen-Smith (2007). <https://www.tandfonline.com/doi/abs/10.5172/conu.2006.23.2.262>

CYSUR 3 2021 ADRODDIAD ADOLYGU YMARFER PLANT

Ym mis Chwefror 2019, roedd gan Blentyn A chwydd i'w phen-glin chwith ac roedd yn dioddef poen ysbeidiol; nodwyd bod y symptomau'n fach iawn, a derbyniodd ei rhieni gyngor meddygol iddi gymryd parasetamol pan oedd angen. Ym mis Mawrth 2019, cysylltodd Ms B â brysbennu y tu allan i oriau i ofyn am gyngor ynghylch Plentyn A, a oedd yn dioddef poen yn yr abdomen a chyfog. Cafodd Ms B gyngor i barhau gyda'r lleddf poen a chysylltu â'r gwasanaeth eto pe bai'r symptomau'n gwaethgu. Wrth i'r flwyddyn ysgol ddod i ben ym mis Gorffennaf 2019, roedd presenoldeb Plentyn A wedi gostwng i 89%, ond effeithiwyd ar y ffigwr hwn hefyd gan wyliau teuluol awdurdodedig a gymerwyd yn ystod y tymor.

Ym mis Awst 2019, ysgrifennodd paediatregydd at y gwasanaeth nyrsio ysgol i ofyn iddynt gofnodi pwysau a thaldrâ Plentyn A. Ar ôl ei derbyn, nodwyd ar y ffurflen atgyfeirio nad oedd yr offer priodol ar gael i'r nyrsys ysgol; o'r herwydd, trosglwyddwyd y cais i'r gwasanaeth nyrsio plant cymunedol. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth ysgrifenedig o'r cais hwnnw o fewn cofnodion iechyd Plentyn A. Ym mis Medi 2019, penderfynodd wroleg pediatriig beidio â chynnig apwyntiadau pellach ar ôl i Blentyn A fethu â chael ei hebrwng (WNB) i bum apwyntiad blaenorol. Fodd bynnag, cafodd y penderfyniad hwnnw ei wrthdroi yn ddiweddarach, a gwelwyd Plentyn A yn rhithiol ym mis Mai 2020.

Parhaodd rhieni Plentyn A i godi pryderon iechyd ac aethant â Phlentyn A at y Meddyg Teulu (GP) ym mis Hydref 2019. Bryd hynny, roedd Plentyn A yn profi traed a choes wedi chwyddo gyda symptomau cysylltiedig tebyg i fflw. Mae'r cofnodion meddygon teulu yn dweud bod gan Blentyn A dymheredd uchel, ac roedd ei choes wedi'i chwyddo ac yn llidiog. Yn ogystal, roedd crachen ar fys ei throed. Cynghorwyd Plentyn A a Ms B i barhau gyda lleddf poen a rhoddwyd gwybodaeth iddynt i'w cynorthwyo i fonitro cyflwr Plentyn A. Mae'r cofnodion meddyg teulu yn nodi 'cyngor gwaethgu wedi'i roi gan gynnwys sepsis.' Bedwar diwrnod yn ddiweddarach, cafodd Plentyn A ei hebrwng gan Ms B i'r adolygiad chwe mis wedi'i drefnu ymlaen llaw gyda'r Ymgynghorydd Orthopedig. Yn yr apwyntiad hwnnw, roedd pryder bod y man gwasgu ar fys troed Plentyn A wedi achosi seliwitis¹¹ gradd isel yn ei choes. Nodwyd bod Plentyn A wedi cwblhau'r cwrs o wrthfotigau, ac roedd ei chyflwr yn gwella. Rhoddwyd cyngor i Ms B archwilio traed Plentyn A yn ddyddiol ac i gadw ei choes yn uchel.

Yn ddiweddarach yr wythnos honno, cafodd Plentyn A ei hebrwng gan Ms B i glinig nyrs yr ardal, lle cofnodwyd bod ganddi lymffoedema¹² yn y ddwy goes. Mae lymffoedema yn gyflwr cronig, mae'r GIG yn nodi y dylai triniaeth gynnwys gwisgo dillad cywasgu, gofalu am eich croen, symud ac ymarfer corff yn rheolaidd, sicrhau diet a ffordd o fyw iach, a defnyddio technegau tyliu arbenigol. Roedd Plentyn A a'i rhieni angen cyngor ar sut i reoli lymffoedema, a nododd y gwasanaeth nyrsio ardal bresenoldeb cefnogaeth yn y gymuned leol o'r enw 'Clwb Coesau'. Fodd bynnag, er bod cofnod i'r gwasanaeth nyrsio ardal drafod anghenion Plentyn A gyda'r gwasanaeth lymffoedema, nid yw'n glir os digwyddodd y drafodaeth honno. Bydd pwysigrwydd cynnal a chadw dogfennaeth broffesiynol yn briodol yn cael ei drafod mewn adran ddiweddarach o'r adroddiad hwn.

Yng nghanol mis Tachwedd 2019, ysgrifennodd yr ysgol at Ms B a Mr C gan fod presenoldeb Plentyn A wedi gostwng i 70.8%. Aeth y ddau riant i gyfarfod yn yr ysgol, ac eglurodd Ms B anghenion iechyd diweddar ei merch a'r bwlio roedd Plentyn A wedi'i brofi yn yr ysgol. Darparodd yr ysgol gwnsela anffurfiol i gynorthwyo Plentyn A a'i grŵp o ffrindiau. Cynyddodd presenoldeb plentyn A yn gyflym i 82%.

Cafodd Plentyn A ei gweld gan Gydymaith Meddygol (PA) dros wyliau'r Nadolig a chafodd driniaeth am haint difrifol yn y glust. Y tro diwethaf i Blentyn A gael ei gweld yn bersonol gan weithiwr iechyd proffesiynol oedd dechrau Chwefror 2020 fel apwyntiad dilynol yn dilyn triniaeth ar gyfer haint ar y glust chwe wythnos ynghynt. Ni chafodd Plentyn A ei hebrwng i'r apwyntiad cleifion allanol yng Nghlinig Ymataliaeth Nyrsio Cymunedol ganol mis Chwefror 2020. Nid oes

¹¹ [Seliwlitis - NHS \(www.nhs.uk\)](http://www.nhs.uk)

¹² [Lymffoedema - NHS \(www.nhs.uk\)](http://www.nhs.uk)

CYSUR 3 2021 ADRODDIAD ADOLYGU YMARFER PLANT

tystiolaeth bod polisi Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi dilyn y Polisi Plant na Chânt eu Hebrwng i Apwyntiad ar yr achlysur hwnnw.

Yn dilyn dechrau'r pandemig COVID-19, nodwyd bod Plentyn A yn ddisgybl bregus; aeth i'r ysgol yn bersonol ddiwethaf ym mis Mawrth 2020. Oherwydd gwarchod, ni allai Plentyn A fynychu canolfan llesiant yr ysgol. Yn hytrach, trefnodd yr ysgol alwadau llesiant wythnosol gan uwch aelodau o'r tîm arweinyddiaeth neu les yn ystod y cyfnod clo. Digwyddodd dau alwad o'r fath gyda Ms B ym mis Mawrth 2020. Ym mis Ebrill 2020, peidiodd y Tîm o Amgylch y Teulu (TAF) â'i ymwneud â Phlentyn A, gan gofnodi ei bod wedi'i dyrannu i'r Gwasanaeth Ymyrraeth leuenctid fel cymorth un asiantaeth.

Trwy gydol Ebrill 2020 a Gorffennaf 2020, ffoniodd staff yr ysgol Ms B yn wythnosol yn ystod y tymor. Cafodd y rhan fwyaf o'r galwadau hynny eu hateb gan Ms B. Er bod nifer o gyfeiriadau yn cael eu gwneud at feddyliau a theimladau Plentyn A yn ystod y galwadau hyn, dim ond dau recordiad sydd ar gael lle roedd yn amlwg y siaradwyd yn uniongyrchol gyda Phlentyn A.

Ym mis Mai 2020, fe wnaeth newid mewn arferion iechyd alluogi Ms B i gymryd rhan mewn ymgynghoriad dros y ffôn gydag adran wroleg yr ysbyty. Nid oes sôn am gynnwys Plentyn A yn yr ymgynghoriad hwnnw, lle adroddwyd na fu heintiau'r llwybr wrinol, a bod hunan-gathetereiddio Plentyn A yn dal i gael ei reoli'n dda. Dyna'r rhyngweithio diwethaf a gofnodwyd gydag asiantaeth iechyd cyn marwolaeth Plentyn A.

Ar 17 Gorffennaf 2020, cynhaliwyd adolygiad blynyddol Plentyn A o ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig dros y ffôn. Cymerodd Plentyn A ran yn y drafodaeth honno (yn y cefndir), gan leisio pryderon am ei chyfluoedd gyrfa cyfyngedig. Mynychodd y gwasanaeth gyrfaoedd yr alwad i helpu i gynorthwyo Plentyn A gyda gweithgareddau dilynol.

Rhwng 3 Medi 2020 a 9 Hydref 2020, roedd yr ysgol mewn cysylltiad dyddiol â Ms B, a ddisgrifiodd fod Plentyn A yn dioddef o wahanol anhwylderau, gan gynnwys annwyd a dolur rhydd. Cynlluniwyd cyfarfod dychwelyd i'r ysgol yn raddol gyda Ms B i ddechrau ar 7 Hydref 2020. Fe ddigwyddodd galwadau pellach yn y dyddiau cyn marwolaeth Plentyn A, gyda Ms B yn dweud bod Plentyn A yn rhy sâl i fod yn yr ysgol ac yn rhy bryderus am ddod i'r ysgol. Yr ysgol oedd yr asiantaeth olaf i siarad â Ms B ynglŷn â Phlentyn A.

Gwersi o ran Ymarfer ac o safbwynt Sefydliadol

Nodwch bob pwnt dysgu sy'n codi yn yr achos hwn (gan gynnwys amlygu ymarfer effeithiol) ynghyd ag amlinelliad byr o'r amgylchiadau perthnasol.

Mae'r gwersi a nodwyd yn yr adran hon yn deillio o'r llinell amser, Dadansoddiad Asiantaethau, Digwyddiadau Dysgu, trafodaeth iechyd ar-lein a chyfraniadau gan aelodau'r teulu. Ochr yn ochr â fframwaith deddfwriaethol a moesegol adroddiad yr *Adolygiad Cenedlaethol o Gymorth Cynnar, Gofal a Chymorth a Phontio ar gyfer Plant Anabl yng Nghymru* a gyhoeddwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn 2021 (adroddiad AGC 2021¹³), roedd yr Adolygiad Ymarfer Plant Cryno hwn yn ymgorffori'r model cymdeithasol o anabled¹⁴, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anabled¹⁵ (UNCRPD), Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn¹⁶

¹³ [Adroddiad Trosolwg Cenedlaethol mewn perthynas â phlant anabl \(arolygiaeth.cymru\)](#)

¹⁴ Mae model cymdeithasol o anabled yn nodi ffordd wahanol o edrych ar anabled – yn hytrach na diffinio pobl fel pobl anabl oherwydd eu nam (h.y. y model meddygol o anabled), ystyrir bod pobl â namau yn anabl gan rwystrau corfforol, atodol a sefydliadol sy'n cael eu creu gan gymdeithas.

¹⁵ [Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anabledau | OHCHR](#)

¹⁶ [Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn - UNICEF UK](#)

(CCUHP), Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011¹⁷, Deddf Cydraddoldeb 2010¹⁸, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015¹⁹ a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014²⁰.

Roedd yr adolygiad yn ffurfio dau bwynt dysgu trosfwaol sy'n gorgyffwrdd i gyd-destunoli agweddau ar brofiadau Plentyn A nad oeddent yn hawdd eu gweld yn y llinell amser. Y cyntaf oedd sut y gallai plentyn ag anabledd cronig dderbyn gofal a chymorth cydgysylltiedig os na chafodd ei asesu ar gyfer cynllun gofal a chymorth neu nad oeddent yn derbyn hyn. Yn ail, oedd cyd-destun Plentyn A yn byw yn lleoliad gwledig Powys.

Pwysigrwydd 'gofal a chymorth' cydgysylltiedig i helpu plentyn ag anabledd cronig gydol oes ac a allai beryglu bywyd i fyw bywyd 'normal'.

Mae pwysigrwydd 'gofal a chymorth' cydgysylltiedig ar gyfer plentyn ag anabledd gydol oes fel spina bifida yn bwynt dysgu trosfwaol o'r Adolygiad Ymarfer Plant hwn. Her allweddol fu cwestiynu profiad Plentyn A, ei rhieni a'i gweithwyr proffesiynol i helpu i wneud synnwyr o sut y gallai gwasanaethau fod wedi gweithredu'n wahanol yn eu cefnogaeth i ddymuniad Plentyn A i gael 'bywyd normal'. Nid oedd plentyn A am gael ei ddiffinio gan ei hanabledd; o'r herwydd, roedd yn bwysig bod unrhyw rwystrau strwythurol a sefydliadol yn cael eu nodi a'u datrys.

Roedd newid yn y ddeddfwriaeth yn diffinio gwasanaethau ar gyfer plant ag anableddau yn ystod bywyd Plentyn A. Gwireddwyd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaethau iechyd a chymdeithasol cynaliadwy i blant, oedolion a theuluoedd²¹ yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014²². O ran plant, fe wnaeth Deddf 2014 ddiidymu neu ddiwygio nifer o agweddau ar ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol²³, gan gynnwys y cysyniad o 'Blentyn mewn Angen'²⁴ o fewn Deddf Plant 1989. Cyn deddfu Deddf 2014 yn 2016, roedd Plentyn A, o dan Ddeddf Plant 1989, yn cael ei dosbarthu fel Plentyn Mewn Angen ac roedd ganddi hawl i wasanaethau²⁵. Yn 2017, fe wnaeth y Gwasanaeth Anabledd Integredig ryddhau Plentyn A o'i ddarpariaeth gyda chytundeb ei rhieni. Ar y pryd, nid oedd unrhyw anghenion a nodwyd nad oeddent yn cael eu diwallu.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014²⁶ yn rhagdybio y bydd gan blentyn ag anableddau anghenion, ac mae dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol 'asesu plentyn y mae'n ymddangos ei fod angen gofal a chymorth yn ychwanegol at, neu yn lle, y gofal a'r cymorth a ddarperir gan ei deulu.' Nid oedd Plentyn A yn destun cynllun gofal a chymorth ac, felly, nid oedd yn 'agored' i dderbyn gwasanaethau gan y Gwasanaeth Anabledd Integredig. Mae pwysigrwydd cynllunio pontio ar gyfer plant ag anableddau a'r camau sy'n ofynnol gan Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd yng Nghymru wedi'i ddiffinio yn adroddiad AGC 2021. Fodd bynnag, heb gynllun gofal a chymorth na chais am asesiad, nid oedd Plentyn A a'i hanghenion a rhai ei rhieni fel gofalwyr yn weladwy i'r Awdurdod Lleol.

Yn ogystal, mae Deddf 2014 yn darparu ar gyfer cofrestr anabledd²⁷, mae cynnal hon bellach yn gysylltiedig â'r Cyfrifiad Gofal a Chymorth.²⁸ Canfu adroddiad AGC 2021 nad oedd pob Awdurdod

¹⁷ [Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc \(Cymru\) 2011 \(legislation.gov.uk\)](http://legislation.gov.uk)

¹⁸ [Deddf Cydraddoldeb 2010 \(legislation.gov.uk\)](http://legislation.gov.uk)

¹⁹ [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015 \(legislation.gov.uk\)](http://legislation.gov.uk)

²⁰ [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](http://legislation.gov.uk)

²¹ [Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu \(gov.wales\)](http://gov.wales)

²² [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](http://legislation.gov.uk)

²³ [Tabl o Ddiwygiadau a Diddymiadau.pdf \(gofalcymdeithasol.cymru\)](http://gov.wales)

²⁴ [Tabl o Ddeddf Plant 1989 Lleoliadau.pdf \(gofalcymdeithasol.cymru\)](http://gov.wales)

²⁵ Roedd gan blant ag anableddau hawl i wasanaethau o dan atodlen 2 rhan 1 paragraff

⁶ <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1989/41/schedule/2/part/I/crossheading/provision-for-disabled-children> o Ddeddf 1989.

²⁶ [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](http://legislation.gov.uk)

²⁷ <https://www.gov.wales/local-authority-registers-disabled-people-31-march-2022>

²⁸ [Cyfrifiad Plant Cymru sy'n Derbynn Gofal a Chymorth: ar 31 Mawrth 2021 | GOV. CYMRU](http://gov.wales)

Lleol wedi cydymffurfio â gofynion Deddf 2014 ac mae'n nodi bod yr wybodaeth hon yn hanfodol i gynllunio ar gyfer gwasanaethau sy'n diwallu anghenion y presennol a'r dyfodol. Roedd gan Blentyn A anabledd cronig, ond nid yw'n hysbys a oedd hi'n blentyn oedd wedi'i chynnwys yn y gofrestr anabledd neu pa effaith y gallai hynny fod wedi'i chael ar ei gallu i dderbyn gwasanaethau. Yn arbennig, mae cofrestru'n wirfoddol, a gall cofrestrau, felly, gynrychioli tanamcangyfrif o nifer y plant ag anabledau.

Roedd yr adolygiad yn cydnabod amodau gwaith heriol y rhai sy'n parhau i ddarparu ein gwasanaethau cyhoeddus. Roedd ymrwymiad ymarferwyr a rheolwyr i ddarparu'r gofal iechyd, yr addysg a'r gofal cymdeithasol gorau y gallant yn amlwg iawn. Fodd bynnag, naratif ailadroddus a rannwyd gan reolwyr ac ymarferwyr fel rhan o'r digwyddiadau dysgu oedd y nifer annigonol o ymarferwyr ar draws gwasanaethau, gan gynnwys pediatregwyr cymunedol²⁹, arbenigwyr mewn wroleg gynhenid³⁰, meddygon teulu³¹ a nyrsio ysgolion³². Yn arbennig, mae rhai strategaethau ar waith i ymateb i ddarpariaeth effeithiol gan y gweithlu, gan gynnwys cyflwyno Cymdeithion Meddygol (PAs) mewn ymarfer cyffredinol cyfoes^{33,34}.

Persbectifau a Myfyrdodau'r Teulu

Roedd Plentyn A eisiau cael ei thrin yn normal. Roedd hi'n benderfynol o fod yn annibynnol. Mae mam a thad Plentyn A yn derbyn cyfrifoldeb am beidio â darparu gofal a chymorth digonol i'w merch yn gyson.

Persbectif a Myfyrdodau y Digwyddiadau Dysgu

Pob Asiantaeth

1. Nid oedd Plentyn A yn destun cynllun gofal a chymorth, megis Adran 21 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar adeg ei marwolaeth. Er bod nifer o weithwyr iechyd proffesiynol wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddarparu ei gofal iechyd cymhleth, ni chydlynwyd hyn gan un asiantaeth neu ymarferydd a oedd â dealltwriaeth gyfannol o'i hanghenion iechyd a gofal cymhleth.
2. Mae asiantaethau'n dibynnu ar ei gilydd a rhieni plentyn i ofyn am asesiad gofal a chymorth.
3. Byddai Plentyn A wedi elwa o asesiad i nodi ei hanghenion gofal a chymorth.

Yr Awdurdod Lleol

4. Nid oedd yn hysbys a oedd Plentyn A wedi'i chynnwys yn y gofrestr anabledd ac roedd mynychwyr y digwyddiad dysgu yn aneglur a fyddai cynhwysiant wedi bod o fudd uniongyrchol i Blentyn A.
5. Dylai fod gan yr Awdurdod Lleol system sy'n nodi'r plant ag anabledau yn eu rhanbarth sy'n debygol o fod angen gofal a chymorth. Dylid defnyddio'r wybodaeth hon i siapio adnoddau dynodedig a'r gwasanaethau sydd ar gael i blant ym Mhowys.

Iechyd

²⁹ Kindregan (2023). 798 The role of advanced clinical practitioners in triage of referrals to community paediatricians. Archives of Disease in Childhood, 108(Suppl 2), A67–A68

³⁰ Payne, et al., (2023). Stress among UK consultant urologists and factors influencing when they leave full-time NHS practice. Journal of Clinical Urology.

³¹ Majeed (2017). Shortage of general practitioners in the NHS. BMJ (Online), 358, j3191–j3191. 1

³² School nurses stretched to breaking point despite pledge: RCN survey reveals reduced investment in training and development for school nurses resulting in shortages. (2009). Primary Health Care, 19(8), 4–4. 3

³³ Salisbury (2023). Physician associates in general practice BMJ 2023; 382 :p1596 doi:10.1136/bmj.p1596

³⁴ Ali (2023). Physician associates in general practice: a GP registrar's perspective BMJ 2023; 382 :p1960

6. Gallai anghenion iechyd a chorfforol newidiol Plentyn A fod wedi cael eu rhagweld, ac am y rheswm hwnnw, efallai y byddai adolygiad neu asesiad rheolaidd wedi helpu i nodi'r rhain yn rhagweithiol.

Persbectif a Myfyrdodau Asiantaeth

Iechyd

1. Mae bwlch yn y ddarpariaeth bresennol ar gyfer plant a'u rhieni ag anableddau cronig a nodwyd nad ydynt yn destun cynllun gofal a chymorth ffurfiol i sicrhau ailasesiad cyfnodol o anghenion sy'n newid.

Yr Awdurdod Lleol

2. Nid oedd y penderfyniad cyn y llinell amser i dynnu gwasanaethau'n ôl, bryd hynny, yn cael ei lywio gan asesiad cyfredol o angen datblygiadol. Dylai unrhyw benderfyniad i dynnu gwasanaethau'n ôl lle mae gan blentyn anghenion cymhleth fod yn benderfyniad amlasiantaeth yn seiliedig ar asesiad cyfannol cyfoes o'r angen.
3. Dylid cynnig asesiad gofalwyr i rieni plant ag anableddau cronig.

Cyd-destun byw ym Mhowys

Roedd Plentyn A yn byw yn un o ardaloedd gwledig mwyaf tlawd Powys, lle profodd 60% o'r boblogaeth o leiaf un dimensiwn o amddifadedd adeg cyfrifiad 2021. Mae gan blant sy'n byw ym Mhowys fynediad at wasanaethau iechyd yn y gymuned i ddiwallu eu hanghenion. Fodd bynnag, yn absenoldeb ysbyty cyffredinol, mae pob gwasanaeth aciwt a llawer o wasanaethau arbenigol yn cael eu comisiynu gan ddarparwyr iechyd eraill, gan arwain yn aml at blant a'u teuluoedd yn gorfod teithio i gael mynediad at y gwasanaethau hyn. Yn gadarnhaol, mae arbenigedd nodedig mewn gwasanaethau iechyd lleol a gwasanaethau wedi'u comisiynu, fodd bynnag, gall gweithio trawsffiniol greu heriau cyfathrebu rhwng gweithwyr iechyd proffesiynol.

Roedd anabledd cronig Plentyn A yn ei gwneud yn ofynnol iddi dderbyn triniaeth arbenigol. Cynhaliwyd ei hapwyntiadau wrolegol ac orthopedig mewn gwahanol ysbytai yn Lloegr, y ddau gryn bellter o'i chartref. Mae ymchwil³⁵ yn dangos y gall mynediad at wroleg bediatreg greu baich ariannol ar unrhyw riant y mae'n rhaid iddo gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith a chlydiant sy'n cael ei hunan-ariannu, ond gall fod yn fwy o bryder i deuluoedd ar incwm isel. Er gwaethaf yr heriau o fynychu'r apwyntiadau hyn, cafodd Plentyn A ei hebrwng gan ei rhieni i lawer o apwyntiadau wrolegol ac orthopedig, er ei bod wedi colli nifer yn ystod bywyd. Fe wnaeth cyflwyno ymgynghoriadau o bell ar gyfer wroleg ym mis Mai 2020 helpu i gael gwared ar rai o'r heriau ymarferol i fynychu apwyntiadau personol.

Agwedd olaf i'w thrafod fel rhan o fywyd Plentyn A ym Mhowys oedd bod cartref ei theulu ar ben bryn serth. Roedd lleoliad y tŷ yn golygu na allai Plentyn A deithio'n annibynnol i'w chartref ac oddi yno. Er iddi gael ei disgrifio yn ddi-ofn wrth iddi fynd yn ei chadair olwyn i lawr yr allt, gan arafu ei chynnydd trwy afael mewn postyn lamp, nid oedd hynny heb risg. Er gwaethaf ei hysbryd cadarnhaol, nid oedd Plentyn A yn gallu gyrru ei hun yn ôl i fyny'r bryn, a byddai aelodau'r teulu yn cymryd eu tro i wthio ei chadair olwyn. Yn arbennig, roedd gan y tu mewn i gartref y teulu rai addasiadau yn ystafell wely ac ystafell ymolchi Plentyn A. Gallai Plentyn A fod yn ystwyth, a phan fyddai'n cael ei hysbrydoli i estyn am felysion y tu allan i'w chyrraedd, gallai ddefnyddio ei chadair

³⁵ Bator, et al., (2015). The burden of attending a pediatric surgical clinic and family preferences toward telemedicine. *Journal of Pediatric Surgery*, 50(10), 1776–1782.

olwyn i ddringo i'r cownter. Fodd bynnag, roedd y gegin yn uchder llawn ac nid oedd wedi ei haddasu i gynorthwyo Plentyn A i ddatblygu ei sgiliau byw'n annibynnol.

Persbectifau a Myfyrdodau'r Teulu

Mae ymgysylltu â'r teulu yn adlewyrchu eu bod yn croesawu arferion sy'n seiliedig ar berthynas gyda gweithwyr proffesiynol lleol y gallent ymddiried ynddynt. Roedd Plentyn A yn ymgysylltu ag ymarferwyr amrywiol ac yn derbyn cefnogaeth gan aelodau'r teulu. Fodd bynnag, roedd teithio i ysbytai yn Lloegr yn rhoi pwysau ychwanegol ar deulu Plentyn A a'u hadnoddau ariannol.

Roedd y teulu'n falch o dderbyn tŷ wedi'i addasu i ddarparu ar gyfer Plentyn A a'i chadair olwyn. Eglurwyd bod y teclyn codi yn ystafell wely Plentyn A wedi'i osod ar gyfer y preswlydd blaenorol, ond roedd Plentyn A yn gallu hunan-drosglwyddo ac nad oedd wedi ei ddefnyddio. Disgrifiodd Ms B sut y byddai Plentyn A yn gwibio i lawr y bryn yn gyflym iawn yn ei chadair olwyn wrth fynd i'r ysgol neu allan fel teulu. Yna byddai aelodau'r teulu yn cymryd eu tro yn gwthio cadair olwyn Plentyn A i fyny'r bryn i ddychwelyd adref.

Persbectif a Myfyrdodau y Digwyddiadau Dysgu

Tai

1. Ni chafodd tai atgyfeiriad i asesu addasrwydd cartref y teulu i ddiwallu anghenion Plentyn A wrth iddi dyfu'n hŷn.

Iechyd

2. Roedd cytundeb bod heriau i ddarpariaeth gwasanaethau iechyd pan fo meysydd arbenigedd yn drawsffiniol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfathrebu, amrywiadau mewn polisi a phrosesau a'r pellter y gallai fod angen i blant a'u teuluoedd deithio i gael mynediad at wasanaethau.

Persbectif a Myfyrdodau Asiantaeth

Iechyd

1. Gallai rhannu gwybodaeth a chyfathrebu rhwng ysbytai Lloegr, yr ysbyty lleol, y meddyg teulu a'r rhieni fod wedi bod yn fwy cadarn i ganfod pam na chafodd Plentyn A ei hebrwng i apwyntiadau. Gellid bod wedi archwilio hynny ymhellach i nodi unrhyw bryderon diogelu neu gynnig unrhyw gymorth pellach i'r teulu, yn enwedig o ran y pellter y bu'n rhaid i'r teulu deithio i apwyntiadau.

Pwysigrwydd monitro pwysau a gweithgarwch corfforol i blant â spina bifida

Gallai monitro pwysau Plentyn A fel rhan o gynllun gofal a chymorth parhaus fod wedi rhoi cyfle i'w chefnogi hi a'i rhieni gyda rheoli pwysau a nodi unrhyw bryderon sy'n datblygu'n gynnar. Cydnabyddir bod clorian bwyso hygyrch o fewn ychydig gannoedd o fetrau o'i hysgol uwchradd, fodd bynnag, ni chynhaliwyd ymwybyddiaeth o'r offer hwnnw a sut y gellid ei ddefnyddio gan yr holl ymarferwyr iechyd a oedd yn ymwneud â darparu gwasanaethau gofal iechyd iddi. Er bod y glorian yn addas i gadair olwyn, pan oedd hi'n gryf yn gorfforol, gallai Plentyn A fod wedi trosglwyddo ei hun o'i chadair olwyn i'r llawr ac yn ôl eto.

Roedd pwysau Plentyn A wedi bod yn bryder hirsefydlog, nad yw'n syndod gan fod gordewdra yn aml yn gysylltiedig â spina bifida oherwydd gallu cyfyngedig plant parablus i losgi calorïau. Yn gyd-destunol, mae'n hysbys bod 25% o blant oed ysgol ym Mhowys dros eu pwysau. Wrth iddi

symud i'r ysgol uwchradd, cefnogwyd Plentyn A gan ffisiotherapydd i adeiladu cryfder rhan uchaf ei corff, a'i galluogodd i hunan-drosglwyddo o'i chadair olwyn a chynyddu ei hannibyniaeth. Galluogodd ei galluedd newydd iddi gymryd rhan mewn pêl-fasged cadair olwyn a gweithgareddau corfforol eraill, a chynorthwyodd y campau hyn gyda rheoli pwysau. Cafodd y gwasanaeth ffisiotherapi ei gau unwaith roedd Plentyn A yn gorfforol annibynnol a bod ei holl nodau gofal wedi'u cyflawni. Ni chafodd Plentyn A ei ailgyfeirio at y gwasanaeth ffisiotherapi gan unrhyw asiantaeth. Pan nad oedd yn actif, fel trwy salwch, gallai Plentyn A fod wedi colli cryfder rhan uchaf y corff a oedd yn ei galluogi i hunan-drosglwyddo, a byddai ei chynnydd dilynol mewn pwysau wedi gwneud hynny'n waeth.

Dysgodd yr adolygydd bod Plentyn A a'i rhieni'n ymgysylltu'n dda ag ymarferwyr lleol y gallent adeiladu perthnasoedd ymddiriedus â nhw. Er enghraifft, roedd y teulu'n ystyried un dietegydd a oedd yn cefnogi dull teuluol cyfan o fwyta'n dda, fel ased. Fodd bynnag, teimlodd Plentyn A fod rhywfaint o gyngor dietegol yn nawddoglyd a chyn y llinell amser mae tystiolaeth o apwyntiadau lluosog lle na chafodd ei hebrwng i weld dietegydd. Roedd hynny'n anffodus, gan fod ymchwil yn awgrymu bod y³⁶ newid o lencyndod i fod yn oedolyn yn aml yn nodi dechrau gordewdra i lawer o bobl â spina bifida. Nid oes tystiolaeth bod Plentyn A na'i rhieni yn deall yn llawn gymhlethdod spina bifida a gordewdra na'r ymyriadau a allai helpu.

Yn ei harddegau, gallai Plentyn A fod wedi bod yn fwy ymwybodol o'r corff ac roedd ganddi gwestiynau heb eu hateb am ei haeddfedrwydd newydd a'r hyn roedd hynny'n ei olygu ar gyfer ei dyfodol. Pe bai dull ymarfer yn seiliedig ar berthynas o fonitro ei phwysau, gallai hyn fod wedi helpu i bontio unrhyw amharodrwydd i ymgysylltu â'r hyn y gallai fod wedi teimlo oedd yn gyngor dietegol di-fudd.

Persbectif a Myfyrdodau'r Teulu

Roedd Plentyn A yn fedrus wrth oresgyn agweddau gwanychol o'i hanabledd. Roedd hi'n benderfynol o reoli ei hanghenion iechyd preifat cymhleth, er bod adegau pan ddaeth hyn yn heriol iddi. Nid oedd Plentyn A yn croesawu cyngor dietegol pan roedd yn teimlo ei fod yn cael ei ddsbarthu'n nawddoglyd. Roedd Ms B yn cofio'r berthynas dda yr oedd hi a'i merch yn ei rhannu â dietegydd difyr yr adeiladodd y teulu lefel o ymddiriedaeth ag ef. Fodd bynnag, yn ddiweddarach, esboniodd Ms B eu bod yn teimlo bod asiantaethau yn llai pryderus am ddeiet Plentyn A.

Persbectif a Myfyrdodau y Digwyddiadau Dysgu

Iechyd

1. Roedd gwybodaeth ymarfer bod Plentyn A ar daflwybr pwysau cynyddol gyda gallu corfforol cyfyngedig i losgi calorïau. Fodd bynnag, roedd diffyg goruchwyliaeth ac adolygiad o'i gallu rheoli pwysau yn unol â'i hanghenion a'i hanabledd sy'n newid.
2. Nododd y ffisiotherapydd na chafodd Plentyn A ei hailgyfeirio at ei wasanaeth gan unrhyw asiantaeth na'r teulu pan oedd lefelau ei gweithgarwch yn cael eu lleihau oherwydd salwch. O ganlyniad uniongyrchol i'r wers hon, maen nhw bellach wedi addasu a gwella eu harferion cofnodi ar ôl cau achosion trwy fanylu ar yr amgylchiadau y dylid ailgyfeirio plentyn i'r gwasanaeth hwn.

Persbectif a Myfyrdodau Asiantaeth

Yr Awdurdod Lleol

³⁶ Rendeli, et al., (2020). Dietary approach to prevent obesity risk in Spina Bifida patients. *Child's Nervous System*, 36(7), 1515–1520.

1. Cyn i'r Gwasanaeth Anabledd Integredig ryddhau Plentyn A yn 2017, un o'u rolau oedd monitro pwysau Plentyn A. Cyn y llinell amser, cynhaliwyd trafodaethau rheolaidd am Blentyn A yn magu pwysau, ond nid oedd llawer o ystyriaeth ynghylch pa bryd y byddai'n briodol i uwchgyfeirio bod hyn yn fater amddiffyn plant.

Iechyd

2. Yn ystod y llinell amser, nid oedd unrhyw gofnodion nac asesiadau o bwysau Plentyn A a'i effaith ar ei lles. Nid yw mesuriadau taldra a phwysau arferol yn cael eu cynnal mewn Clinigau Orthopedig oni bai bod llawdriniaethau wedi'u cynllunio. Fodd bynnag, dylai taldra a phwysau plant sydd o dan ofal pediatrig gael eu monitro fel mater o drefn, gan ystyried yr angen a'r argaeledd ar gyfer offer arbenigol i rai plant.
3. Cydnabuwyd ar lefel Cymru Gyfan bod angen mynd i'r afael â gordewdra ymhlith plant; cyhoeddodd Cymru ei Llwybr Gordewdra Cymru Gyfan yn 2010³⁷, sydd wedi'i ddisodli gan ddatblygu Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2021.

Pob Asiantaeth

4. Cyn dechrau pandemig COVID-19 ym mis Mawrth 2020, gwelwyd Plentyn A yn yr ysgol a chan weithwyr iechyd proffesiynol, ond ni chafwyd unrhyw gyfeiriad ynghylch ei phwysau.

Pwysigrwydd monitro cyflyrau croen ar gyfer plant sydd â symudedd cyfyngedig

Ffactor iechyd allweddol arall sy'n ymwneud â phwysau a diffyg symudedd Plentyn A oedd yr angen i ofalu am ei chroen a'i fonitro. Roedd yna bennod o ddirywiad yng nghyflwr ei chroen tua diwedd 2019, ac fe wnaeth ei rhieni geisio a derbyn sylw meddygol ar ei gyfer. Mae tystiolaeth bod Plentyn A a'i rhieni wedi derbyn cyngor ynghylch y driniaeth gychwynnol ar gyfer lymffoedema a nodwyd bod y cyflwr yn gwella. Fodd bynnag, ni ddangosodd y llinell amser unrhyw dystiolaeth bod Plentyn A wedi cael cynnig apwyntiad dilynol ar ôl nodi lymffoedema. Yn nodedig, ar wahân i'r cais pediatrig i Blentyn A gael ei phwyso ym mis Awst 2019 (na ddigwyddodd), ni chafodd monitro pwysau a gofal croen Plentyn A ei gynnwys mewn apwyntiadau iechyd eraill a fynychwyd.

Persbectif a Myfyrdodau y Digwyddiadau Dysgu

Yr Awdurdod Lleol

1. Pe bai gan Blentyn A gynllun gofal a chymorth ac felly yn agored i'r Gwasanaeth Anabledd Integredig, byddent wedi deall pwysigrwydd iddi dderbyn gofal am lymffoedema a helpu i gydlynu hynny.

Iechyd

2. Ar ôl i lymffoedema neu unrhyw gyflwr iechyd gael ei nodi a allai effeithio ar uniondeb y croen neu leihau symudedd mewn plentyn ag anabledd, dylid cymryd y cyfle i ystyried asesu croen plentyn o'r pwynt hwn. Gallai llwybr clir fod wedi nodi hyn a helpu i gael mynediad at y gwasanaeth priodol.

Persbectif a Myfyrdodau Asiantaeth

Iechyd

³⁷ [Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan 2021](#)

1. Ar ôl diagnosis o lymffoedema, roedd cyfle i fonitro croen Plentyn A o'r fan hon, fodd bynnag, nid oedd llwybr clir i nodi a chael mynediad at y gwasanaeth priodol i wneud hyn.

Yr Awdurdod Lleol

2. Wrth fyfyrto, nid oedd systemau a phrosesau y Gwasanaeth Anableded Integredig a oedd ar waith cyn y llinell amser dan sylw yn ddigon cadarn, ac nid oedd ei benderfyniadau bob amser yn cael eu llywio gan asesiad cyfredol o angen amlasiantaeth.

Pontio o blentyndod i fod yn oedolyn gyda spina bifida

Mae gan y thema hon ddau nod; un yw cyd-destunoli profiad Plentyn A fel glasoed, a'r ail yw myfyrio ar bwysigrwydd cynllunio pontio ar gyfer plant â spina bifida. Mae datblygiadau meddygol dros y degawdau diwethaf wedi cynyddu disgwyliad oes pobl â spina bifida. Felly, mae ein dealltwriaeth o gymhlethdod byw gyda spina bifida trwy lencyndod ac oedolaeth yn parhau i ddatblygu³⁸. Gall glasoed a dechrau'r glasoed yn gynnar i ferched â spina bifida gyd-fynd â dirywiad sydyn yng ngweithrediad y bledren a'r arenau.³⁹ Mae ymchwil⁴⁰ pellach yn dangos, i ferched ag anabledau corfforol, y gall rheoli mislif yn yr ysgol fod yn arbennig o heriol.

Mae gweithgarwch teulu pan fydd gan blentyn spina bifida yn bwnc ymchwil a gwerthuso⁴¹ sy'n anelu at ddeall y ffactorau biolegol, niwroseicolegol a chymdeithasol cydberthynol. Mae ymchwil yn awgrymu y bydd plentyn sydd â chyflwr cronig fel spina bifida, yn ei ardegau, yn credu yn gynyddol mai nhw yw'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau o ran rheoli eu salwch. Mae astudiaeth⁴² hydredol o 140 o blant gyda spina bifida rhwng 8 a 23 mlwydd oed yn dangos sut mae trosglwyddo gofal o riant i blentyn yn rhan gymhleth a hanfodol o drosglwyddo i fod yn oedolyn ifanc. Mae ymchwil yn cefnogi rhieni sy'n hwyluso annibyniaeth eu plentyn o fewn galluoedd datblygiadol eu plentyn, gan gydnabod bod disgwyliadau yn amodol ar amrywiad wrth i blant sydd â spina bifida ddod yn oedolion sy'n dod i'r amlwg.⁴³

Roedd cymhlethdod anghenion iechyd, addysg a gofal cymdeithasol Plentyn A yn gofyn am gyflynu nifer o asiantaethau i gynorthwyo pontio llwyddiannus i fod yn oedolyn⁴⁴. Yn yr ysgol, roedd Plentyn A yn derbyn cymorth i feddwl ymlaen am opsiynau astudio a gyrfa. Yn ei Hadolygiad Anghenion Addysgol Arbennig blynyddol a gynullwyd dros y ffôn ym mis Gorffennaf 2020, lleisiodd Plentyn A bryderon am ei chyfleoedd gyrfa cyfyngedig.

Roedd asiantaethau lluosog wedi rhyddhau Plentyn A o'u gwasanaeth, ac nid oes tystiolaeth o unrhyw ystyriaeth i gychwyn asesiad o'i hanghenion er mwyn galluogi'r trosglwyddiad cydgysylltiedig hwnnw i wasanaethau oedolion. Os nad yw'r cynllunio ar gyfer trosglwyddo i fod yn oedolyn yn ddigonol, gall gynyddu anghenion iechyd a chymdeithasol.⁴⁵ Mae pontio i ofal

³⁸ Phillips, et al., (2017). Spina Bifida Management. *Current Problems in Pediatric and Adolescent Health Care*, 47(7), 173–177. 7

³⁹ Tong & Tanaka, (2021). Let's Talk About Sex: Special Considerations in Reproductive Care and Sexual Education in Young Women With Spina Bifida. *Urology* (Ridgewood, N.J.), 151, 79–85.

⁴⁰ Streur, et al., (2023). "They had the lunch lady coming up to assist": The experiences of menarche and menstrual management for adolescents with physical disabilities. *Disability and Health Journal*, 16(4), 101510–101510. 0

⁴¹ Holmbeck et al. (2006) <https://doi.org/10.1097/00004703-200606000-00012>

⁴² Stern et al., (2021). Medical responsibility growth in youth with spina bifida: Neuropsychological and parenting predictors. *Health Psychology*, 40(10), 692-701.

⁴³ Holbein, et al., (2017). Milestone achievement in emerging adulthood in spina bifida: a longitudinal investigation of parental expectations. *Developmental Medicine and Child Neurology*, 59(3), 311–316.

⁴⁴ Roth, et al., (2023). Transitioning Young Adults with Spina Bifida: Challenges and Paths to Success. *Journal of Pediatric Urology*.

⁴⁵ Jenkins, et al., (2021). Adolescents and Young Adults With Spina Bifida Transitioning to Adulthood: A Comprehensive Community-Based Needs Assessment. *Academic Pediatrics*, 21(5), 858–867.

oedolion i blant â spina bifida yn gallu cyflyno heriau lluosog, gan gynnwys materion niwrowybyddol a gweithrediad niwroseicolegol. Er enghraifft, mae ymchwil yn awgrymu y gall llawer o bobl ddangos anhwylder straen meddygol wedi trawma, a all eu gwneud yn llai tebygol o ymrwymo i driniaethau meddygol, hyd yn oed pan nad oes unrhyw opsiynau eraill.

Persbectif a Myfyrdodau y Digwyddiadau Dysgu

Iechyd

1. Dylai Plentyn A fod wedi cael mynediad at gynllunio pontio. Gellid rhagweld llawer o'i hanghenion, ond nid oedd cydlynu cyffredinol rhwng gwasanaethau ar gael yn gyson.
2. Manteisiodd Plentyn A o ddatblygiadau mewn gofal wrolegol a all atal marwolaeth gynamserol y gellir ei hosgoi i blant â spina bifida.
3. Mae hyrwyddo iechyd i blant sydd â spina bifida yn her enfawr wrth iddynt ddechrau cymryd cyfrifoldeb am eu gofal wrth ymdopi â chymhlethdod glasoed sy'n cael ei waethygu gan eu hanabledd.
4. Ni ddylai plentyn sydd ag anableddau sylweddol a chronig fel spina bifida gael ei ryddhau o wasanaethau os yw hynny'n cyfyngu ar y cymorth pontio sydd ei angen arno o bediatreg i ofal oedolion.

Addysg

5. Gweithiodd yr ysgol yn gadarnhaol gyda Phlentyn A a'i theulu i archwilio ei hopsiynau addysg a gyrfa yn y dyfodol, a chwblhaodd ei Hadolygiad Anghenion Addysgol Arbennig blynyddol ym mis Gorffennaf 2020 dros y ffôn.

Yr Awdurdod Lleol

6. Pe bai'r Gwasanaeth Anabledd Integredig wedi bod yn ymwneud â Phlentyn A fel plentyn gyda chynllun gofal a chymorth, gallent fod wedi ei chefnogi hi a'i rhieni i gynllunio ar gyfer pontio.

Tai

7. Ni chafodd tai atgyfeiriad i asesu addasrwydd cartref y teulu i ddiwallu anghenion Plentyn A wrth iddi dyfu'n hŷn.

Persbectif yr Asiantaeth a

Iechyd ac Awdurdod Lleol

1. Dylai Plentyn A fod wedi cael mynediad at gynllunio pontio. Gellid rhagweld llawer o'i hanghenion, ond nid oedd cydlynu cyffredinol rhwng gwasanaethau ar gael yn gyson. Gallai cynllunio pontio fod wedi helpu i ystyried ei hanghenion newidiol wrth iddi ddod yn oedolyn a'i chefnogi i fod yn fwy annibynnol, gan gydnabod cymhlethdod ei hanabledd. Os yw plentyn ag anabledd gydol oes yn cael ei ryddhau o wasanaethau heb unrhyw oruchwyliaeth, mae'n cyfyngu ar y gofal cydlynol, cyfannol a chymorth hanfodol sydd ei angen arno o bediatreg i ofal oedolion.

Cofnodi llais y plentyn a rhannu gwybodaeth i hwyluso gofal cydgysylltiedig

Ar adegau, roedd rhannu gwybodaeth dda am anghenion Plentyn A yn amlwg, yn enwedig ar lefel leol. Roedd achlysuron pan gofnodwyd cyfraniadau Plentyn A, ac fe wnaeth hynny ganiatáu i ni fyfyrion ar ei barn ar yr adegau hynny. Dysgodd yr adolygiad fod Plentyn A yn blentyn preifat ac anaml y byddai'n rhannu gwybodaeth am ei bywyd cartref yn yr ysgol. Roedd y gweithiwr YIS wedi ennill ei hymddiriedaeth, ac roedd Plentyn A yn teimlo ei bod yn gallu rhannu rhywfaint o'r bregusrwydd a brofodd hi, a defnyddio'r offer oedd ar gael i gofnodi ei lles emosiynol. Fodd bynnag, ar adegau, nid oedd cofnodi a storio gwybodaeth yn ddigonol; ar adegau roedd cofnodion ysgrifenedig yn anghyflawn ac ni allai un gwasanaeth iechyd ddod o hyd i'w gofnodion. Pan ddaeth Plentyn A i apwyntiadau, roedd achlysuron pan na chafodd ei barn ei chofnodi'n amlwg.

Tra'n cydnabod yr heriau lluosog a all fod yn rhwystrau i fynychu apwyntiadau, thema trwy gydol bywyd Plentyn A oedd y presenoldeb anghyson mewn apwyntiadau iechyd. Fodd bynnag, nid oes llawer o dystiolaeth bod y gweithwyr proffesiynol dan sylw yn cydnabod yr anghysonderau hyn ar draws yr holl wasanaethau. Mae gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys bolisi Plant na Chânt eu Hebrwng i Apwyntiad a ddatblygwyd yn 2013 a'i ddiwygio yn 2019 i gynnwys oedolion bregus. Diweddarwyd y ddogfen hon yn 2022 yn dilyn archwiliad mewnol. Roedd y polisi presennol yn rhoi'r cyfrifoldeb i archwilio'r apwyntiad a fethwyd yn fanylach ar yr ymarferydd oedd yn cynnal yr apwyntiad a fethwyd. Mae'r cyfrifoldeb hwnnw'n cynnwys yr angen i ymgynghori ag unrhyw ymarferwyr eraill sy'n ymwneud â'r plentyn a chwblhau a chofnodi asesiad risg sy'n manylu ar y camau nesaf i'w cymryd. Yn ogystal, mae'r atgyfeiriwr hefyd i'w wneud yn ymwybodol o'r apwyntiad a fethwyd a'r camau i'w cymryd. Rhaid cofnodi pob achlysur lle na chafodd plentyn ei hebrwng i apwyntiad fel digwyddiad arwyddocaol, sy'n cael ei fonitro a'i archwilio gan Arweinwyr Tîm.

Roedd Plentyn A angen asesiad cyfannol parhaus o'i hanghenion a nodwyd o fewn cynllun gofal a chymorth amlasiantaeth. Byddai angen i gynllun o'r fath gael ei hwyluso gan gydlynnydd gofal i ddod ag ymarferwyr amlddisgyblaethol, y teulu a'r Plentyn A at ei gilydd i helpu i nodi anghenion presennol ac unrhyw anghenion posibl yn y dyfodol.⁴⁶ Yn absenoldeb cydlynnydd gofal dynodedig ar gyfer plant ag anghenion gofal cymhleth, mae rhagdybiaeth y bydd y rhieni'n cyflawni'r rôl honno. Fodd bynnag, mae ymchwil yn awgrymu bod cydlynnydd gofal yn cefnogi a chynyddu ymgysylltiad teuluol, a gall leddfu'r pwysau ar wasanaethau proffesiynol sydd â chapasiti staff cyfyngedig.⁴⁷

Persbectif a Myfyrdodau y Digwyddiadau Dysgu

Iechyd

1. Roedd tystiolaeth o arfer da rhwng ymarferwyr lleol pan oeddent yn ymgysylltu â Phlentyn A a'i rhieni ar yr un pryd.
2. Roedd diffyg gweithio amlasiantaethol, a rhywun wedi'i nodi i gydlynu'r gofal roedd Plentyn A ei angen.

Persbectif a Myfyrdodau Asiantaeth

Yr Awdurdod Lleol

1. Dylai fod parodrwydd gan asiantaethau eraill i gynnal cyfarfodydd amlasiantaeth a dod â phartion cysylltiedig ynghyd; ni ddylai fod dibyniaeth lwyr ar yr Awdurdod Lleol i drefnu.

⁴⁶ Myers (2022). 887 Care Co-ordination for children with a disability or developmental difficulty empowers families and reduces the burden on staff supporting them. Archives of Disease in Childhood, 107(Suppl 2), A75–A76.

⁴⁷ [Care coordination for children with a disability or developmental difficulty..... Wiley Online Library](#)

Iechyd

2. Mae Polisi WNB 2022 wedi'i rannu ar draws y Bwrdd Iechyd, a darparwyd hyfforddiant, ond cydnabyddir ei fod yn dal i gael ei ymgorffori yn ymarferol. Mae proses archwilio barhaus i fonitro, nodi heriau a gwella ei ddefnydd yn ymarferol. Mae'r archwiliad yn cynnwys cydymffurfiaeth polisi, nodi meysydd o arfer da, yr heriau wrth eu cymhwyso a nodi gwelliannau mewn ymarfer, lle bo angen. Mae heriau gan fod darparwyr iechyd gwahanol yn defnyddio eu Polisiâu WNB eu hunain, a allai fod â phrosesau gwahanol i'w dilyn pan na fydd plentyn yn cael ei hebrwng i apwyntiad. Gallai hyn olygu na fydd gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda'r ymarferwyr cywir, gan arwain at fylchau mewn gwybodaeth am anghenion cyfannol y plentyn, eu hasesiadau parhaus neu asesiadau a fethwyd a chynllunio gofal.
3. Ni wnaeth yr ysbyty na chofnodion iechyd eraill ddal llais Plentyn A yn gyson i helpu i'w deall yn cyflwyno anghenion, dymuniadau a theimladau iechyd.
4. Nid oedd prosesau sydd ar waith i storio a chofnodi gwybodaeth iechyd allweddol yn ddigon cadarn, gan arwain, ar brydiau, i gofnodion anghyflawn ac anallu i ddod o hyd i gofnodion podiatreg Plentyn A.

Addysg

5. Roedd gan Plentyn A Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig i ymateb i'w hanghenion anabledd corfforol.
6. Cafodd Plentyn A gefnogaeth sylweddol i'w helpu i bontio i'r ysgol uwchradd, ond roedd y pwyslais ar ei hanghenion corfforol yn hytrach na phryderon cymdeithasol.
7. Ni wnaeth yr ysgol ddal barn plentyn A yn gyson a chofnodi'n glir pan oeddent wedi siarad â hi yn ystod ei chyfnod o warchod.

Cyd-destun pandemig COVID-19

Cyn dechrau'r pandemig, datgelodd gwybodaeth ymchwil y gall rhieni plant â spina bifida brofi iechyd corfforol a meddyliol gwael ac anawsterau yn eu perthnasoedd⁴⁸. Roedd ymchwil⁴⁹ pellach a nododd fod symptomau iselder yn gyffredin iawn ymhlith rhieni plant â spina bifida yn argymhell cynnig sgrinio i rieni i nodi eu hanghenion iechyd meddwl. Esboniodd Ms B sut yr ymdrechodd y teulu i sicrhau bod eu bywyd teuluol yn gynhwysol o Blentyn A, a oedd weithiau'n creu rhai cyfyngiadau ac ar adegau yn nadu diddordebau ei brodyr a'i chwiorydd. Adleisiodd ymchwil⁵⁰ i brofiad byw brodyr a chwiorydd plentyn gyda spina bifida farn Ms B, gyda'r perthnasoedd hyn yn cael eu trysori'n fawr ac yn disgrifio ystod o emosiynau, gan gynnwys cariad, anwyldeb, balchder, pryder a thristwch.

Ym mis Mawrth 2020, ymatebodd y wlad i bandemig COVID-19 gyda lluo o fesurau deddfwriaethol a pholisi brys. Yn aml, ailgyfeiriwyd adnoddau iechyd a gofal cymdeithasol i ymateb i anghenion digynsail. Yn unol â chanllawiau'r llywodraeth, nodwyd bod Plentyn A angen gwarchod ei hun fel ffordd o amddiffyn yn ystod y pandemig. Pan oedd mewn iechyd da, roedd presenoldeb Plentyn A yn rhagorol ac mae adroddiadau'n adlewyrchu, ar wahân i anawsterau cyfeillgarwch achlysurol,

⁴⁸ Ulual, et al., (2023). Relation between marital adjustment and somatic symptoms on parents of children with Spina Bifida. *European Psychiatry*, 66(S1), S588–S588.

⁴⁹ Ridosh, et al., (2017). Depressive Symptoms in Parents of Children with Spina Bifida: A Review of the Literature. *Comprehensive Child and Adolescent Nursing*, 40(2), 71–110.

<https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/24694193.2016.1273978>

⁵⁰ Bellin, et al., (2008). Risk and Protective Influences in the Lives of Siblings of Youths with Spina Bifida. *Health & Social Work*, 33(3), 199–209. <https://academic.oup.com/hsw/article-abstract/33/3/199/817911?redirectedFrom=fulltext>

ei bod hi'n mwynhau bod yn yr ysgol. Fodd bynnag, ni chafwyd asesiad o'r tebygolrwydd y gallai ddiweddef niwed sylweddol yn ystod y pandemig oherwydd effeithiau corfforol a meddyliol posibl cyfyngu ar symud ac unigedd.

Roedd strategaethau COVID-19 yng nghartref y teulu yn llwyddiannus, gan nad oedd yn ymddangos bod Plentyn A wedi dal y firws COVID-19. Fodd bynnag, roedd ynysu gartref hefyd yn cyfyngu ar ei symudedd, a arweiniodd at ganlyniadau sylweddol. Fe wnaeth y pandemig sbarduno arloesiadau mewn clinigau rhithwir,⁵¹ a chymerodd Plentyn A ran ynddynt ym mis Mai 2020.

Mae ymchwil⁵² i brofiadau rhieni plentyn ag anableddau yn ystod y pandemig wedi dangos iechyd meddwl a chorfforol gwaeth rhieni oedd yn profi gostyngiad sylweddol yn eu cefnogaeth gymdeithasol. Mae rhieni sy'n profi anghydbwysedd yn eu galluoedd a'r gofynion cronig⁵³ ar eu hadnoddau mewn perygl o flinder difrifol, a elwir yn or-flinder rhieni, pan fyddant yn agored i straen parhaus rhieni. Nid oes tystiolaeth bod Ms B neu Mr C wedi derbyn asesiad o'u hanghenion cymorth i ofalu am eu merch, Plentyn A.

Ar adeg ei marwolaeth, roedd Plentyn A wedi bod yn ynysu yn gymdeithasol am chwe mis yn unol â chanllawiau llywodraethol i leihau trosglwyddiad y firws COVID-19. Roedd Plentyn A yn poeni am y feirws, ac roedd ei theulu'n gallu sicrhau ei bod yn parhau i fod yn rhydd o'r feirws. Mae natur ynysigrwydd cymdeithasol yn golygu bod gennym ni ddealltwriaeth gyfyngedig o brofiad Plentyn A o ddydd i ddydd yn ystod y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, roedd y dystiolaeth o'r ffordd y bu farw yn ein galluogi i ddod i'r casgliad bod effaith cyfrannol cwarantîn estynedig ar Plentyn A yn niferus a chymhleth, gan waethygu ei gwendidau a lleihau'r seilwaith cefnogol yr oedd hi'n dibynnu arno.⁵⁴

Persbectif a Myfyrdodau'r Teulu

Roedd Plentyn A yn poeni am gael ei heintio â COVID-19, a chytunodd hi a'i rhieni i'w thynnu o'r ysgol cyn y cyfnod clo cyntaf. Roedd cwarantîn neu warchod yn gorfforol gyfyngol gan mai gardd fach yn unig oedd gan y teulu. Roedd lleoliad cartref y teulu ar fryn serth; o'r herwydd, nid oedd Plentyn A yn gallu mynd fyny ac i lawr y bryn ar ei phen ei hun yn ddiogel.

Persbectif a Myfyrdodau y Digwyddiadau Dysgu

1. Pan oedd Plentyn A yn yr ysgol, dyma oedd ei lle hapus, ac roedd ganddi bobl i'w chefnogi. Roedd y rheolau ynglŷn â COVID-19 yn newid yn ddyddiol; roedden nhw'n amgylchiadau anodd nad oedd unrhyw un wedi'i baratoi ar eu cyfer, a daeth ysgolion yn hybiau mewn mater o ddyddiau.
2. Parhaodd y gweithiwr YIS i ymwneud yn anffurfiol â Phlentyn A hyd at y pandemig. Adroddodd y gweithiwr i'r ysgol yn fisol. Byddai'r gweithiwr YIS yn dal i fyny gyda Phlentyn A bob wythnos, ond efallai na fydd hyn bob amser wedi'i gofnodi, gan y gallai fod yn sgwrs gyflym yn y coridor. Fodd bynnag, mae'r arfer hwnnw bellach wedi newid, ac mae'r holl sgysiau hyn yn cael eu cofnodi.
3. Cyn tarfu a grëwyd gan bandemig COVID-19, cynorthwyodd yr elusen Shine mewn dull tîm amlddisgyblaethol, yn y gwasanaeth wrolegol yn ysbyty Lloegr.

⁵¹ Dicianno, et al., (2022). Innovations in Telemedicine Services in Spina Bifida Clinics in the U. S. During the Covid-19 Pandemic. *Technology and Innovation*, 22(2), 157–164.

⁵² Fortin-Bédard et al., (2023). Being a Parent of Children with Disabilities during the COVID-19 Pandemic: Multi-Method Study of Health, Social Life, and Occupational Situation. *International Journal of Environmental Research and Public Health*, 20(4), 3110

⁵³ Mikolajczak, M., & Roskam, I. (2018). A theoretical and clinical framework for parental burnout: The balance between risks and resources (BR). *Frontiers in Psychology*, 9, 886–886.

<https://www.frontiersin.org/articles/10.3389/fpsyg.2018.00886/full>

⁵⁴ Stiles-Shields et al. (2021). <https://academic.oup.com/jpepsy/article/46/9/1040/6341660>

Persbectif a Myfyrdodau Asiantaeth

Addysg

1. Fe wnaeth yr ysgol ddilyn holl ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gefnogi teuluoedd yn ystod cyfnod clo COVID-19 rhwng mis Mawrth 2020 a mis Gorffennaf 2020. Fe wnaethon nhw cadw mewn cysylltiad â Plentyn A a'i theulu bob wythnos.
2. Tan y cyfnod clo, roedd yr ysgol yn cefnogi Plentyn A i gynnal ei chynnydd academaidd disgwyliedig, ac roedd hi'n dangos agwedd gadarnhaol tuag at ei haddysg.
3. Roedd y gefnogaeth a ddarparwyd gan yr ysgol ar gyfer anghenion penodol Plentyn A yn briodol, fel y dangosir gan yr adolygiadau blynyddol yn 2019 a 2020.
4. Peidiodd y Gwasanaeth Ymyrraeth Ieuenctid â darparu gwasanaethau cwnsela i gefnogi Plentyn A gyda materion cyfeillgarwch a datblygiad emosiynol ym mis Ebrill 2020. Doedd dim atgyfeiriad parhaus ar gyfer ei hanghenion emosiynol yn ystod y pandemig.
5. Profodd y teulu broblemau wrth ddefnyddio Microsoft Teams ar gyfer yr adolygiad blynyddol ym mis Gorffennaf 2020. Gallai'r ysgol fod wedi cynnig cymorth i sefydlu hyn gyda'r teulu er mwyn sicrhau cyswllt gweledol gyda'r teulu. Doedd yr ysgol ddim yn disgwyl i Plentyn A fynychu'r ysgol tan fis Medi oherwydd ei hanghenion meddygol a'r ffaith ei bod yn gwarchod. Cytunwyd ar gynlluniau gyda Ms B i ailgyflwyno Plentyn A i'r ysgol o 7 Hydref 2020. Byddai hynny'n digwydd yn raddol oherwydd sefyllfa COVID-19 a bod Plentyn A mewn perygl gan ei bod wedi bod yn gwarchod.
6. Mae'r ysgol wedi cryfhau ei chanllawiau ar gyfer ymateb i achosion pan nad yw disgyblion wedi cael eu gweld. Mae polisi 'gweld' newydd, a ddatblygwyd gan yr ysgol roedd Plentyn A yn ei mynychu, yn golygu os nad yw plentyn wedi'i weld ers pythefnos, gallai cyflwr rhybudd uwch ennyn ymweliad â chartref y teulu neu, os bernir bod angen, codi pryder diogelu gyda'r asiantaeth berthnasol. Yn ogystal, mewn pandemig yn y dyfodol, bydd ysgolion yn sicrhau bod dysgwyr sy'n agored i niwed yn gallu cael mynediad at gymwysiadau TG, fel bod plant yn cael eu gweld a'u clywed i helpu i fonitro eu lles a'u cynnydd mewn addysg. O'r herwydd, bydd sesiynau cyswllt wythnosol yr ysgol yn cynnwys cyswllt gweledol a llafar â disgyblion, naill ai dros Teams neu drwy ymweliad corfforol â'r cartref (yn dibynnu ar ganllawiau Llywodraeth Cymru ar y pryd).

Yr Awdurdod Lleol

7. Daeth Gwasanaeth Anabledd Integredig Plant yr Awdurdod Lleol i ben ar 27 Ebrill 2017, pan oedd Plentyn A yn 12 mlwydd oed.

Iechyd

1. Cwblhawyd apwyntiad wroleg rithwir dros y ffôn oherwydd pandemig COVID-19, a oedd yn gyfle a gollwyd i weld sut roedd Plentyn A yn cyflwyno bryd hynny. Mae apwyntiadau rithwir wedi'u nodi fel opsiwn ychwanegol cadarnhaol i blant a theuluoedd y mae'n ofynnol iddynt deithio i apwyntiadau yn aml.

Gwella Systemau ac Ymarfer

Er mwyn hyrwyddo'r gwersi o'r achos hwn fe wnaeth yr adolygiad adnabod y camau gweithredu canlynol ar gyfer y Bwrdd a'i aelod-asiantaethau a deilliannau gwella a ddisgwylir:



(Beth sydd angen ei wneud yn wahanol, sut y bydd hyn yn gwella arferion a systemau yn y dyfodol i gefnogi ymarfer?)

1. Awdurdodau Lleol i sicrhau bod asesiadau gofal a chymorth yn cael eu cynnig yn gyson a bod cynlluniau dilynol yn seiliedig ar gryfder ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn cydymffurfio â'r codau ymarfer perthnasol. Dylai systemau sicrhau ansawdd fod yn effeithiol wrth ysgogi gwelliant parhaus a chydymffurfio â gofynion statudol.
2. Yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd i adolygu'r systemau, y prosesau a'r llwybrau sydd ar waith ar y cyd ar gyfer plant ag anableddau cronig. Dylai'r adolygiad ar y cyd gadarnhau bod trefniadau yn ddigonol ac yn ddigon cadarn i sicrhau:
 - Bod anghenion gofal cymhleth plant a'r gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn yn cael eu goruchwyllo a'u cydlynu gan un asiantaeth neu ymarferydd dynodedig. Rhaid i hyn gynnwys plant nad ydynt efallai'n destun cynlluniau gofal a chymorth ffurfiol megis Adran 21 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
 - Mae digon o wiriadau a thafolion ar waith i gefnogi cyfleoedd i ailasesu anghenion newidiol plentyn, gan gynnwys trefniadau pontio a chynllunio.
 - Rhaid i systemau priodol fod ar waith i gasglu a chofnodi nifer y plant ag anableddau a nodwyd yn ardal yr Awdurdod Lleol, yn unol ag Adran 18 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
 - Canllawiau ymarfer perthnasol i sicrhau bod plant a'u teuluoedd yn derbyn yr wybodaeth, y cyngor a'r cymorth cywir yn gyson ar yr adeg gywir. Dylai fod 'dim drws anghywir' i blant ag anableddau a'u teuluoedd.
 - Mae ymarferwyr ac asiantaethau statudol yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael gan y trydydd sector ac elusennau i blant a'u teuluoedd ag anableddau cymhleth, ac yn gallu cyfeirio teuluoedd at y gwasanaethau hyn fel y bo'n briodol i angen.
3. Mae'r holl asiantaethau i gynnal adolygiad o'u rhaglenni hyfforddi presennol a'u canllawiau polisi i sicrhau bod y ddyletswydd ar bob ymarferydd, waeth beth fo'r rhwystrau, i siarad â phlant a chyfathrebu'n uniongyrchol â nhw, yn cael ei deall. Rhaid i'w cyfrifoldeb i ymgysylltu ac chofnodi unrhyw gyfathrebu yn gywir fod yn glir a chael eu deall gan y rhai sy'n gyfrifol am ddarparu a chyflwyno gwasanaethau i blant a'u teuluoedd.
4. Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i godi ymwybyddiaeth, gweithredu ac ymgorffori Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan wedi'i ddiweddarau ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2021.
5. Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i adolygu argaeledd a mynediad at wasanaethau lymffoedema ar gyfer plant sy'n byw ym Mhowys. Egluro neu greu protocol ynghylch monitro cyflwr croen plant ag anghenion iechyd cymhleth a chyfyngiadau symudedd yn rheolaidd, gan gynnwys spina bifida.
6. Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i wreiddio'r polisi Plant na Chânt eu Hebrwng i Apwyntiad ymhellach ac i ystyried cyfranogiad trawsffiniol.

CYSUR 3 2021 ADRODDIAD ADOLYGU YMARFER PLANT

7. Yr Awdurdod Lleol i adolygu canllawiau ymarfer cau achosion ar gyfer Gwasanaethau Anabledd Integredig (IDS) ac IDS Cymorth Cynnar i sicrhau bod pob achos o gau yn cynnwys cyswllt â gweithwyr proffesiynol eraill ac eglurder ar y broses o ailgyfeirio, gan gynnwys ar gyfer anghenion pontio i fod yn oedolyn, pan fo angen.
8. Yr Awdurdod Lleol i adolygu'r Cynnig Cymorth cynnar IDS i sicrhau bod ganddo ddigon o adnoddau i ddarparu gwasanaeth ystyrlon ac effeithiol. Mae'r adolygiad hwnnw'n cynnwys cyfathrebu effeithiol a rhannu gwybodaeth a datblygu Canllawiau Ymarfer ar gyfer cofnodi cysylltiadau â phlant a theuluoedd gan y Gwasanaeth Ymyrraeth Ieuenctid.
9. Dylid ystyried cyflwyno ac ymgorffori'r polisi 'Llygaid Ar', a weithredir gan yr ysgol y mynychodd Plentyn A, ar draws ardal yr Awdurdod Lleol fel model o arfer da.

CYSUR 3 2021 ADRODDIAD ADOLYGU YMARFER PLANT

Datganiad gan yr Adolygydd/Adolygwyr			
Adolygydd 1	Dr Donna Peach	Adolygydd 2	Amh.
		<i>(fel y bo'n briodol)</i>	
Datganiad o annibyniaeth ar yr achos <i>Datganiad cymhwyster Sicrhau Ansawdd</i>		Datganiad o annibyniaeth ar yr achos <i>Datganiad cymhwyster Sicrhau Ansawdd</i>	
Yr wyf yn gwneud y datganiad canlynol, sef cyn fy ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn:		Yr wyf yn gwneud y datganiad canlynol, sef cyn fy ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn:	
<ul style="list-style-type: none"> Nid wyf wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ynghylch yr achos. Na fu gennyf unrhyw reolaeth llinell uniongyrchol ar yr ymarferydd/ymarferwyr cysylltiedig. Fy mod yn meddu ar y cymwysterau, yr wybodaeth a'r profiad a hyfforddiant cydnabyddedig priodol i gynnal yr adolygiad. Bod yr adolygiad wedi cael ei gynnal yn briodol ac y bu'n drylwyr o ran dadansoddi a gwerthuso'r materion fel a nodwyd yn y Cylch Gorchwyl. 		<ul style="list-style-type: none"> Nid wyf wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ynghylch yr achos. Na fu gennyf unrhyw reolaeth llinell uniongyrchol ar yr ymarferydd/ymarferwyr cysylltiedig. Fy mod yn meddu ar y cymwysterau, yr wybodaeth a'r profiad a hyfforddiant cydnabyddedig priodol i gynnal yr adolygiad. Bod yr adolygiad wedi cael ei gynnal yn briodol ac y bu'n drylwyr o ran dadansoddi a gwerthuso'r materion fel a nodwyd yn y Cylch Gorchwyl. 	
Adolygydd 1 <i>(Llofnod)</i>		Adolygydd 2 <i>(Llofnod)</i>
Name Dr Donna Peach <i>(Mewn Llythrennau Breision)</i>		Enw	<i>(Mewn Llythrennau Breision)</i>
Dyddiad 29 Ionawr 2024		Dyddiad
Cadeirydd Panel yr <i>(Llofnod)</i>		Adolygiad	
Enw Jayne Butler <i>(Mewn Llythrennau Breision)</i>			
Dyddiad 29 Ionawr 2024			

Proses Adolygiad Ymarfer Plant/Oedolion

I'w gynnwys yma yn gwyno:

- *Y broses a ddilynwyd gan y Bwrdd a'r gwasanaethau a gynrychiolwyd ar Banel yr Adolygiad*
- *Bod digwyddiad dysgu wedi cael ei gynnal a'r gwasanaethau a oedd yn bresennol*
- *Bod aelodau'r teulu wedi cael eu hysbysu, eu barn wedi cael ei cheisio ac wedi cael ei chynrychioli trwy gydol y digwyddiad dysgu ac adborth wedi cael ei ddarparu ar eu cyfer.*

Y broses a ddilynwyd gan y Bwrdd a'r gwasanaethau a gynrychiolwyd ar Banel yr Adolygiad

Comisiynwyd Cadeirydd Panel ac Adolygydd Annibynnol, a oedd, yn unol â'r canllawiau, yn annibynnol ar y gwaith rheoli achosion ac a oedd â'r profiad, galluedd, gwybodaeth a sgiliau perthnasol fel sy'n ofynnol gan yr achos a'r amgylchiadau dan sylw. Roedd y Panel Adolygu yn cynnwys cynrychiolaeth gan yr asiantaethau canlynol, a phob un ohonynt wedi ymwneud â'r unigolion wrth wraidd yr adolygiad hwn:

- Gwasanaethau Plant yr Awdurdod Lleol
- Iechyd
- Addysg
- Heddlu

Mae'r adolygydd yn ddiolchgar i'r Panel am eu hymrwymiad a'u harbenigedd i gefnogi'r broses adolygu dysgu ar draws asiantaethau. Cynhaliwyd cyfanswm o 11 cyfarfod panel.

Cynnwys y rhieni yn yr adolygiad

Mae cymryd rhan mewn adolygiad ymarfer plant pan fydd plentyn wedi marw yn broses hynod o anodd a sensitif i unrhyw riant neu aelod o'r teulu. Manteisiodd yr adolygiad hwn ar gyfranogiad caredig a myfyrdodau meddylgar aelodau teulu Plentyn A, y mae'r adolygydd yn dymuno estyn cydymdeimlad diffuant a diolchgarwch am eu cyfraniadau gwerthfawr sy'n canolbwyntio ar y plentyn i'r broses ddysgu. Mae'r safbwyntiau hyn yn cael eu cyflwyno drwy gydol yr adroddiad hwn.

Digwyddiadau Dysgu a Thrafodaeth Iechyd

Gwahoddwyd pob asiantaeth i fynychu dau ddiwyddiad dysgu drwy'r dydd; un a gynhaliwyd ar gyfer ymarferwyr ar 20 Medi 2023 ac un ar gyfer rheolwyr a gynhaliwyd y diwrnod canlynol. At ei gilydd, fe wnaeth 27 o weithwyr proffesiynol fynychu a chroesawu'r broses myfyriol feirniadol. Yn anffodus, ni allai un gweithiwr iechyd proffesiynol fod yn bresennol oherwydd ymrwymadau gwaith, a threfnodd yr Adolygydd drafodaeth ar-lein gyda nhw.

Ni wnaeth yr amser a oedd wedi mynd heibio ers marwolaeth Plentyn A leihau natur heriol myfyrio ar y digwyddiadau yng nghanol yr adolygiad hwn. Ym mhob Digwyddiad Dysgu, rhannodd ymarferwyr a rheolwyr eu mewnwelediadau i brofiad byw Plentyn A. Roedd mynychwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i wrando, rhannu a dysgu o'u gwahanol gyfranogiad a chymerwyd gofal mawr i gadw urddas Plentyn A yn ystod pob sgwrs. Roedd yn amlwg bod gweithwyr proffesiynol wedi gweithio'n galed iawn ers blynnyddoedd lawer i gefnogi Plentyn A ac i sicrhau bod ganddi fynediad i fywyd mor llawn ag y byddai ei chyflwr yn ei ganiatáu. Mae'r Adolygydd yn ddiolchgar am gyfraniadau amhrisiadwy pawb a gymerodd ran yn y broses ddysgu. Cymeradwyir parodrwydd pawb i fyfrio'n feirniadol a chwilio am atebion sydd wedi'u hadeiladu ar gyd-ddealltwriaeth.

Y teulu wedi gwrthod cymryd rhan: na

CYSUR 3 2021 ADRODDIAD ADOLYGU YMARFER PLANT

Ar gyfer defnydd Llywodraeth Cymru yn unig

Dyddiad y cafwyd yr wybodaeth:
(dyddiad)

Llythyr cydnabod wedi'i anfon at Gadeirydd y Bwrdd:(dyddiad)

Wedi'i chylchredeg i arolygiaethau/ Arweinwyr Polisi perthnasol:
.....(dyddiad)

Asiantaethau	Ydw	Nac ydw	Rheswm
CSSIW			
Estyn			
AGIC			
ACEF			
APEF			

Atodiad 1: Cylch Gorchwyl

Cylch Gorchwyl ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant Cryno

CYSUR 3 2021 (Powys)



- **Arweinydd Diogelu Enwebedig** – Holly Gordon
- **Cadeirydd y Panel Adolygu** – Jayne Butler
- **Adolygydd(Adolygwyr) Annibynnol** – Dr Donna Peach

Tasgau Craidd:

- Penderfynu a yw'r penderfyniadau a'r camau gweithredu yn yr achos yn cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau'r Bwrdd a'r gwasanaethau a enwir.
- Archwilio effeithiolrwydd trefniadau gweithio rhyngasiantaethol a'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau i'r plentyn a'r teulu.
- Penderfynu i ba raddau yr oedd penderfyniadau a chamau gweithredu er budd pennaf y plentyn/oedolyn ac yn canolbwyntio ar ddeilliannau.
- Ceisio cyfraniadau i'r adolygiad gan aelodau priodol o'r teulu a'u hysbysu'n gyson ynghylch agweddau allweddol ar gynnydd.
- Ystyried unrhyw ymchwiliadau neu achosion cyfreithiol cyfochrog sy'n gysylltiedig â'r achos.
- Cynnal digwyddiad dysgu amlasiantaeth ar gyfer ymarferwyr, a nodi'r adnoddau angenrheidiol.

Yn ogystal â'r broses adolygu, i roi sylw arbennig i'r canlynol:

- P'un a oedd gwybodaeth berthnasol neu hanes perthnasol blaenorol am y plentyn ac/neu aelodau'r teulu yn hysbys ac wedi cael eu hystyried yn asesiad, gwaith cynllunio a phenderfyniadau gweithwyr proffesiynol o ran y plentyn, y teulu a'i amgylchiadau. Sut mae'r wybodaeth hon wedi cyfrannu at y canlyniad i'r plentyn.
- P'un a oedd rhwystrau neu anawsterau yn yr achos hwn a wnaeth atal asiantaethau rhag cyflawni eu dyletswyddau (dylai hyn gynnwys ystyried materion sefydliadol a materion cyd-destunol eraill).

Tasgau Penodol Panel yr Adolygiad

- Nodi a chomisiynu adolygydd annibynnol i weithio gyda *Phanel yr Adolygiad* yn unol â'r canllawiau ar gyfer adolygiadau cryno.
- Cytuno ar y ffrâm amser.
- Nodi asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu i'r adolygiad, cynhyrchu llinell amser a chrynodeb cychwynnol o'r achos ac adnabod unrhyw gamau gweithredu ar unwaith a gymerwyd yn barod.
- Cwblhau gwybodaeth ychwanegol ynghylch yr Adolygydd Annibynnol ac aelodaeth y Panel
- Cynhyrchu llinell amser gyfunol, dadansoddiad cychwynnol a deilliannau dysgu.
- Mynd ati gyda'r adolygwyr i gynllunio digwyddiad dysgu ar gyfer ymarferwyr, a hynny'n cynnwys adnabod y rhai a fydd yn bresennol a threfniadau i'w paratoi a'u cefnogi cyn ac ar ôl y digwyddiad, a threfniadau ar gyfer adborth.
- Mynd ati gyda'r adolygydd i gynllunio'r trefniadau ar gyfer cyswllt â'r unigolyn ac aelodau'r teulu cyn y digwyddiad.
- Cael ac ystyried y fersiwn ddrafft o'r adroddiad adolygu ymarfer plant drafft i sicrhau bod

CYSUR 3 2021 ADRODDIAD ADOLYGU YMARFER PLANT

y cylch gorchwyl wedi cael ei fodloni a bod unrhyw wersi ychwanegol yn cael eu hadnabod ac yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol.

- Cytuno ar gasgliadau o'r adroddiad drafft a chynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i'r Is-Grŵp Adolygu Ymarfer i gael eu hystyried a'u cytuno.
- Cynllunio trefniadau i roi adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad yn dilyn cwblhau'r adolygiad a chyn cyhoeddi'r adroddiad.
- Bydd aelodau *Panel yr Adolygiad* yn ymlynu wrth egwyddorion Deddf Diogelu Data 2018 wrth drin gwybodaeth bersonol fel rhan o broses yr Adolygiad Ymarfer Plant (gweler yr adran ar Rannu Gwybodaeth a Chyfrinachedd).

Tasgau penodol yr Is-Grŵp Adolygu Ymarfer Plant:

- Cytuno a chymeradwyo Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer pob achos a argymhellwyd ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant.
- Cytuno ar gasgliadau o'r adroddiad drafft a chynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i'r Bwrdd i gael eu hystyried a'u cytuno.
- Monitro cynlluniau gweithredu sy'n deillio o Adolygiadau Ymarfer Plant i sicrhau bod yr holl argymhellion yn cael eu rhoi ar waith ar ran y Bwrdd.

Tasgau Bwrdd Diogelu Plant CYSUR

- Bydd yr Uned Fusnes, ar ran y Bwrdd, yn hysbysu Llywodraeth Cymru bod Adolygiad Ymarfer Plant yn cael ei gynnal.
- Ymlynu wrth raddfeydd amser ar gyfer cwblhau, yn unol â chanllawiau statudol.
- Cael adroddiad terfynol yr Adolygiad Ymarfer Plant a'r cynllun gweithredu a'u cymeradwyo'n ffurfiol.
- Ystyried a chytuno ar unrhyw bwyntiau dysgu ar gyfer y Bwrdd sydd i'w hymgorffori yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.
- Cadarnhau'r trefniadau ar gyfer rheoli'r cynllun gweithredu amlasiantaeth gan yr Is-Grŵp Adolygu, gan gynnwys sut y bydd gwelliannau a ddisgwylir i wasanaethau'n cael eu hadnabod, eu monitro a'u hadolygu.
- Cynllunio ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad ar wefan y Bwrdd am isafswm o 12 wythnos ar ôl ei gwblhau.
- Cytuno i ddsbarthu'r adroddiad i asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol.
- Cadeirydd y Bwrdd fydd yn gyfrifol am wneud pob sylw cyhoeddus a'r holl ymatebion i ddiddordeb gan y cyfryngau mewn perthynas â'r adolygiad nes bod y broses wedi'i chwblhau.

Rhannu Gwybodaeth a Chyfrinachedd

Rhaid egluro perchnogaeth ar yr holl wybodaeth a dogfennaeth er mwyn cael y caniatâd priodol gan y sefydliad perthnasol cyn rhannu. Dim ond gwybodaeth a berchnogir neu a gychwynnwyd ganddynt hwy y gall sefydliadau ei rhannu.

Dylai'r cyfrifoldeb am ofyn am wybodaeth gan bob sefydliad (gan gynnwys gan ddarparwyr annibynnol) gael ei egluro a'i gytuno gan y Panel, fel y bo'n briodol.

Bydd datganiad cyfrinachedd (fel a nodir isod) yn cael ei lofnodi ym mhob un o gyfarfodydd y Panel gan bawb sy'n bresennol i ailgadarnhau'r ffiniau y mae gwybodaeth yn cael ei rhannu oddi mewn iddynt:

- Wrth weithio gyda gwybodaeth sensitif mewn perthynas ag Adolygiad Ymarfer Plant, mae'r holl asiantaethau wedi cytuno ar ffiniau cyfrinachedd. Mae'r broses hon yn parchu'r ffiniau cyfrinachedd hynny ac fe'i cynhelir dan gyd-ddealltwriaeth am y canlynol:
 - Bod cyfarfod y Panel yn cael ei alw dan ganllawiau '*Gweithio gyda'n Gilydd i*

CYSUR 3 2021 ADRODDIAD ADOLYGU YMARFER PLANT

Ddiogelu Pobl: Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant’ o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant [Cymru] 2014.

- Y bydd datgelu gwybodaeth y tu allan i'r Panel y tu hwnt i'r hyn y cytunwyd arno yn y cyfarfod yn cael ei ystyried yn achos o dorri cyfrinachedd y gwrthrych ac yn achos o dorri cyfrinachedd yr asiantaethau dan sylw.
- Os teimlir bod cydsyniad i ddatgelu'n hanfodol, dylid ceisio caniatâd cychwynnol gan Gadeirydd y Panel, a bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn ôl yr egwyddor 'angen gwybod'.
- Fodd bynnag, mae'r cyfrifoldeb yn y pen draw am ddatgelu gwybodaeth o'r Panel Amlasiantaeth wrth drydydd parti'n gorwedd gyda Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru a rhaid cyfeirio'r mater at Reolwr Busnes y Bwrdd i gael awdurdod i ddatgelu.